

## Y Brif Llyfrgell a'r Brifwyl

Anerchiad a draddodwyd yn y Babell Lân yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cyffiniau,  
Yr Wyddgrug, 6 Awst 2007

RHIDIAN GRIFFITHS

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gant oed eleni – ac os na wyddech chi hynny'n barod, mae'n holl ymdrechion cyhoedduswydd wedi bod yn ofer. Ac mae Amgueddfa Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol gynt, hithau'n gant oed. I gydnabod y pen blwydd ar y cyd mae'r ddau sefydliad wedi uno i gyflwyno Coron yr Eisteddfod, a gobeithio'n wir y bydd rhywun yn ei hennill heddiw, er mwyn y tri sefydliad cenedlaethol – y Llyfrgell, yr Amgueddfa, a'r Eisteddfod ei hun – yn y flwyddyn neilltuol hon.

Ymfrost mawr yr Amgueddfa Brydeinig pan oedd hi'n gartref i'r hyn a elwir bellach yn Llyfrgell Brydeinig oedd mai yn ei hystafell ddarllen, yr Ystafell Gron enwog, y cyfansoddodd Karl Marx ei brif waith, **Das Kapital**, gwaith a ddylanwadodd yn ddirfawr ar hanes y byd yn yr ugeinfed ganrif. Mae'r ffaith hon yn cael ei defnyddio o bryd i'w gilydd i brofi pa mor chwyldroadol o bwysig a dylanwadol y mae ein llyfrgelloedd. Dwi ddim yn gwybod yn fanwl pa gampweithiau sydd wedi eu llunio yn Ystafelloedd Darllen Llyfrgell Genedlaethol Cymru dros y blynyddoedd - rwy'n sicr fod yna lawer ohonyn nhw - ond rwy'n gwybod fod miloedd ar filoedd o ysgolheigion, myfyrwyr a darllenwyr o bob lliw a llun a chefnidir wedi treulio'u horiau yn yr Ystafelloedd hynny yn myfyrion ar amrywiaeth o destunau astrus ac ar gwestiynau dyfnaf dynol-ryw. Beth yw ystyr bywyd? Pam mae cymaint o ddiodef yn y byd? A pham mai Aberystwyth ac nid Caerdydd yw cartref Llyfrgell Genedlaethol Cymru? Alla i ddim cynnig ateb i'r ddau gyntaf, ond mae'n werth sylwi am y trydydd ei fod yn gwestiwn sy'n dal i gael ei ofyn ar ben canrif o fodolaeth y Llyfrgell. Yn fy mhrofiad i, Saeson a phobl o gefndir dinesig sy'n holi, gan amlygu ffordd o feddwl sy'n mynnu clymu unrhyw gorff neu fudiad cenedlaethol wrth ddinas boblog lle ceir cyfoeth, grym a dylanwad gwleidyddol; sy'n mynnu hefyd fod bodolaeth prifddinas yn un o'r pethau hanfodol sy'n diffinio cenedl. Ond mae cefndir sefydlu'r Llyfrgell yn ein dysgu nad hynny yw, neu oedd, y ffordd Gymreig o edrych ar bethau.

Er taw yn 1907 y gwireddwyd y freuddwyd, mae'r syniad wrth gwrs yn hŷn o lawer. Yng nghanol y ddeunawfed ganrif roedd Morysiaid Môn yn ceisio hyrwyddo'r ddelfryd o gasgliad cenedlaethol Gymreig o lyfrau a llawysgrifau, ac fe gadwyd y casgliad a grëwyd ganddyn nhw yn yr Ysgol Gymreig yn Llundain am flynyddoedd lawer cyn ei drosglwyddo i'r Amgueddfa Brydeinig yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg - sy'n esbonio pam mai yn Llundain ac nid yn Aberystwyth y mae llawysgrif Robert ap Huw o gerddoriaeth i'r delyn, er enghraifft, a llawysgrif Richard Morris ei hun o gerddi rhydd, a llawer i beth Gymreig arall. Fe awgrymodd yr hynod lolo Morganwg y dylai ei bapurau gael eu diogelu mewn llyfrgell genedlaethol Gymreig os sefydlid un. Yna yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe gawn ymdrechion i sefydlu llyfrgelloedd a chasgliadau Gymreig - yn enwedig felly gasgliad Sefydliad Brenhinol Deheudir Cymru yn amgueddfa Abertawe, a sylfaenwyd yn 1835 ac a dyfodd i fod yn gasgliad o bwys erbyn chwarter ola'r ganrif, er nad oedd yn llyfrgell genedlaethol nac yn ymhonni felly. Bu'r casglwr mawr Syr Thomas Phillips o Middle Hill, swydd Caerwrangon - ond y teulu'n gysylltiedig â theulu Phillips o Gilsant, Sir Gaerfyrddin -

yn hyrwyddo'r syniad o lyfrgell genedlaethol ar sail ei gasgliad ei hun o ryw 100,000 o eitemau yn llawysgrifau a llyfrau tua 1850, ac yn argymhell ei lleoli rywle yng nghanol Cymru, ym Machynlleth, Llanidloes neu Aberystwyth.

Ond ni chafwyd o'r un o'r symudiadau hyn lyfrgell genedlaethol i Gymru. Thomas Gee efallai a ail-ddeffrodd y syniad ym meddwl y genedl mewn erthygl olygyddol yn **Y Faner** wedi Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 1860 (29 Awst), gan ddadlau dros lyfrgell i gadw llyfrau a llawysgrifau o bob math oedd yn ymwneud â Chymru. Roedd Gee yn ddigon gwleidyddol ei natur i annog petisiwn i'r Senedd am grant i godi adeilad yn y canolbarth (dalier sylw eto!), ac enwyd Machynlleth, Llanidloes ac Aberystwyth drachefn yn lleoliadau posib. Ni chafodd Gee ymateb torfol gwerth sôn amdano – efallai, fel y dywed David Jenkins yn ei gyfrol ar hanes y Llyfrgell (ar werth ar ein stondin ar y maes), am nad oedd y Gymru Ymneilltuol am dderbyn arian y llywodraeth i bethau cenedlaethol, neu hwyrach am nad oedd neb am gymylu'r ymgyrch oedd eisoes ar droed i ddatblygu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, neu yn syml efallai am nad oedd Cymru'n barod eto i goleddu'r syniad yn llawn. Aeth tair blynedd ar ddeg heibio cyn i'r syniad o lyfrgell genedlaethol frigo eto i'r wyneb, a hynny yn sgil yr Eisteddfod Genedlaethol eto, yn yr Wyddgrug y tro hwn.

Petaem yn mudo nôl mewn Tardis eisteddfodol a glanio yn yr Wyddgrug yn 1873 byddai un peth yn gwneud inni deimlo'n gwbl gartrefol yn syth: ar ddiwrnod cyntaf yr Eisteddfod roedd hi'n diwel y glaw. O ganlyniad, er bod y pafiliwn a godwyd ar gyfer yr ŵyl yn dala 5000 o bobl, cwta 2000 oedd yn bresennol. Fel arall byddai'r Eisteddfod hon yn ymddangos yn bur ddieithr inni, yn enwedig felly yr awyrgylch Saesneg oedd o'i chwmpas. Llywydd y dydd ar y diwrnod cyntaf oedd Prif Weinidog Prydain ar y pryd, y Rhyddfrydwr William Ewart Gladstone, a oedd wedi teithio ychydig filltiroedd yn unig o'i gartref ym Mhenarlâg i'r Eisteddfod. Hwyrach nad oedd y daith yn un faith, ond roedd presenoldeb Gladstone yn yr Eisteddfod yn cynrychioli siwrnai go hir o gydnabyddiaeth. Nid lle i Brif Weinidogion oedd yr Eisteddfod fel arfer, ac roedd i'r Prif Weinidog hwn ei hanrhydeddu â'i bresenoldeb yn dangos parodrwydd amheuthun (yn ôl y farn gyfoes) i gydnabod y Cymry a'u traddodiadau. Ond mwy arwyddocaol na'i bresenoldeb oedd yr hyn a ddywedodd yn ei araith. Fe greodd argraff fawr; yn wir fe aeth **Y Faner** i rapsodi am berfformiad y Prif Weinidog, mewn geiriau y byddai'n anodd eu dychmygu mewn papur newydd neu fwletin newyddion heddiw:

Derbyniwyd y bonheddwr urddasol gyda tharanau o gymeradwyaeth gan y dyrfa fawr ... Yr oedd y dyrfa ... wedi ei hoelio wrtho tra y llefarai; ac yn ddiddadl, ni chlywyd amgenach siarad oddi ar esgynlawr yr Eisteddfod Gymreig yn holl oesoedd ei hanes ...

Os darllenwch yr araith heddiw, naill ai yn y cyfieithiad llawn ohoni a ymddangosodd yn **Y Faner** neu yn y crynodeb a gyhoeddwyd yn y **Times**, yr hyn fydd yn eich taro yw'r pwyslais sydd gan Gladstone ar bwysigrwydd dysgu Saesneg i ddod ymlaen yn y byd. Ond – a hyn oedd wedi taro pobl ar y pryd – mae e hefyd yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r diwylliant Cymraeg a'r iaith Gymraeg, gan ddadlau ei bod yn holl bwysig er enghraifft i benodi esgobion a chlerigwyr oedd yn medru Cymraeg er mwyn iddynt allu siarad â'u plwyfolion a bod yn ddealladwy. Cyfaddefodd Gladstone mai Henry Richard, yr Apostol Heddwch o Dregaron ac Aelod Seneddol dros Ferthyr, oedd wedi newid ei feddwl am werth y Gymraeg. Roedd cael cydnabyddiaeth gyhoeddus fel hyn (a chofier bod y **Times** wedi cynnwys adroddiad ar yr ymweliad â'r

Wyddgrug), yn oes y 'Welsh Not' ac yng nghysgod hir y Llyfrau Gleision, yn codi rhywfaint ar hyder y Cymry.

Yn yr un Eisteddfod cafwyd cyfarfod. Dywed rhai ffynonellau mai cyfarfod cyhoeddus oedd hwn, ond yn ôl adroddiadau cyfoes â'r Eisteddfod ei hunan, cyfarfod y beirdd a'r llenorion ydoedd, ac nid mewn pabell lân ychwaith ond yn ysgol fwrdd yr Wyddgrug. Fe'i cynhaliwyd ar 22 Awst, diwrnod olaf yr Eisteddfod a thridiau wedi araith Gladstone. Does dim cyswllt amlwg rhwng yr araith a'r cyfarfod, ond roedd y wasg yn esgud i'w cyplysu, ac efallai bod yn yr ail - cyfarfod y beirdd a'r llenorion - ryw adlais bychan o'r diddordeb a grëwyd gan y cyntaf, araith Gladstone. Yn y cyfarfod hwn, dan gadeiryddiaeth T R Lloyd, 'Estyn', rheithor Llanfynydd, Sir Fflint, fe gododd John Williams, 'Glanmor', i gynnig yn ffurfiol y dylid sefydlu llyfrgell genedlaethol i Gymru, ac mae'n ddiddorol fod y geiriau hyn, 'Llyfrgell genedlaethol i Gymru' yn ymddangos yn adroddiad **Y Faner** mewn prif lythrennau, arwydd o bwysigrwydd y syniad ym meddwl Thomas Gee fel ym meddwl y sawl a'i cynigiodd. Hwyrach fod Gee yn falch o weld rhywun yn cydio mewn syniad roedd e wedi ei wyntyllu dair blynedd ar ddeg ynghynt.

Clerigwr oedd Glanmor a oedd yn gwasanaethu ar y pryd fel curad yng Nglynebwy, ac fe wnaeth yn fawr o'r ffaith ei fod wedi dod bob cam o Sir Fynwy i'r Wyddgrug i bledio pwysigrwydd cael llyfrgell i ddiogelu treftadaeth lenyddol a dogfennol Cymru. Yn 1860 roedd wedi cyhoeddi cyfrol arloesol ar hanes arglwyddiaeth Dinbych, cyfrol oedd yn tynnu ar ddogfennau gwreiddiol, ac fe oedd felly'n deall i'r dim bwysigrwydd archifau. Eiliwyd ei gynnig gan yr awdur a'r cyhoeddwr Isaac Foulkes, Lerpwl, bywgraffydd Daniel Owen yn ddiweddarach, ac mewn ffordd nodweddiadol Gymreig fe sefydlwyd pwyllgor a chytuno ar nifer o benderfyniadau:

1. mai da o beth fyddai sefydlu llyfrgell genedlaethol, yn bennaf o lyfrau prin a llawysgrifau yn yr iaith Gymraeg, ac mewn ieithoedd eraill lle maent yn berthnasol i Gymru a'i phobl
2. y dylid derbyn cynnig Pwyllgor Prifysgol Cymru o ystafell yn y Coleg yn Aberystwyth i sefydlu'r llyfrgell
3. y dylid penodi pwyllgor i symud y gwaith ymlaen ac adrodd yn ôl yn Eisteddfod Bangor 1874
4. y dylai'r canlynol fod yn aelodau o'r pwyllgor hwnnw: Henry Davies, Cheltenham; Robert Ellis, 'Cynddelw', Caernarfon; D Silvan Evans, Llanymawddwy; Stephen Evans, Llundain; John Griffith, 'Y Gohebydd'; Robert Jones, Rotherhithe; J Alun Jones, Temple, Llundain; T R Lloyd, Llanfynydd; Hugh Owen, Llundain; Dr Evan Price, Dinbych; J H Puleston, Llundain; John Rhys, y Rhyl; Brinley Richards, Llundain; B T Williams, Caerfyrddin; John Williams, 'Glanmor', Glynebwy; E R G Salisbury, Caer.

Symbolaidd yw arwyddocâd y cyfarfod hwn, oherwydd er i unigolion groesawu'r datblygiad a disgwyl pethau mawr – cyhoeddwyd llythyr cefnogol gan E R G Salisbury yn y **Carnarvon and Denbigh Herald** ym mis Rhagfyr er enghraifft – does dim tystiolaeth i'r pwyllgor gyfarfod nac i Eisteddfod Bangor 1874 dderbyn unrhyw adroddiad yn ôl.

Ond mae tri pheth o leiaf yn arwyddocaol am symudiad yr Wyddgrug yn 1873.

Yn gyntaf, fe ddatganwyd yn glir a phendant yr awydd i gael llyfrgell genedlaethol i Gymru a beth fyddai pwrpas creiddiol honno, sef diogelu llyfrau a llawysgrifau Cymreig a deunydd am y Cymry ble bynnag y'i cyhoeddid ac ym mha iaith bynnag y'i sgrifennwyd, pethau sy'n para i fod yn gwbl ganolog i bolisi casglu'r Llyfrgell heddiw; ac fe gododd yr awydd am lyfrgell o blith y Cymry eu hunain, nid o gyfeiriad senedd na dim awdurdod cyhoeddus arall.

Yn ail, roedd cyswllt amlwg ym meddwl cyfarfod yr Wyddgrug rhwng y syniad o lyfrgell genedlaethol a bodolaeth (ddigon bregus mae'n wir) Coleg Prifysgol yng Nghymru – fe gofiwch i'r Coleg yn Aberystwyth gael ei sefydlu flwyddyn ynghynt, yn 1872 – ac roedd awydd i gyplysu'r ddau beth.

Yn drydydd, yr Eisteddfod Genedlaethol, cyfarfod blynyddol cyffredinol y genedl, oedd y lle amlwg, y fforwm cenedlaethol, i gyflwyno'r syniadau hyn; ac oni fu hynny'n wir am nifer o ddatblygiadau pwysig yn hanes Cymru dros y blynyddoedd?

Ond nid oedd grym gwleidyddol tu ôl i'r symudiad eto – delfryd ydoedd heb yr arfau priodol i'w sylweddoli. Os craffwch ar enwau aelodau'r pwyllgor a gynigiwyd yn 1873 – ac fe enwyd sawl un heb gael eu caniatâd ymlaen llaw – fe welwch taw beirdd, ysgolheigion a chasglwyr llyfrau yw'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Roedd angen *nous* gwleidyddol hefyd. Ac fe drodd y ddadl dros lyfrgell (ac amgueddfa) i Gymru yn ddadl wleidyddol a oedd ynghlwm wrth ddatblygiad y mudiad addysgol yn bennaf.

O safbwynt hanes diwylliannol y genedl, dyddiad allweddol yw 1847, dyddiad Brad y Llyfrau Gleision a'r colffarnu cyhoeddus ar y Cymry a'u hiaith. Mewn darlith a draddodwyd yn y Llyfrgell yn Aberystwyth yn 2006 i lansio'r gyfres o ddarlithiau canmlwyddiant dan nawdd y Sefydliad Materion Cymreig, dadleuodd yr Athro Prys Morgan fod yr holl ymchwydd o hunaniaeth genedlaethol sy'n nodweddu rhan ola'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn deillio o'r profiad hwn, profiad y Llyfrau Gleision. Mae'n debyg taw dwy ffordd sydd o ymateb i sarhad – mi allwch blygu a derbyn y sarhad gan dybio bod y sarhâwr yn iawn, neu mi allwch ymladd y sarhad. Yr oedd cyfarfod y beirdd a'r llenorion yn 1873, a'r ymateb i araith Gladstone, yn ffordd o ymladd y sarhad, ond roedd profiad y genhedlaeth nesaf – 30 mlynedd yn wir – yn dangos nad ar chwarae bach yr oedd trechu'r sarhâwr.

Er nad oes tystiolaeth i bwllgor yr Wyddgrug weithredu, fe wireddwyd un rhan o weledigaeth 1873 trwy ddatblygu llyfrgell Gymreig dan adain y Coleg yn Aberystwyth. Y ddau lyfr cyntaf a dderbyniwyd yn 1873 oedd - yn briodol ddigon mae'n siŵr - gopi o Feibl William Morgan 1588 a chopi o Feibl Richard Parry 1620, i osod y llyfrgell ar ben ffordd y llwybr cul. Rhoddwyd sbardun i'r datblygiad pan benodwyd D Silvan Evans yn Athro'r Gymraeg yn Aberystwyth yn 1875 (fe gofiwch fod ei enw ef ymhlith y rhai a enwebwyd yn yr Wyddgrug yn 1873), ond digon simsan oedd y llyfrgell hon am flynyddoedd, ac wrth gwrs roedd ar drugaredd sefyllfa ariannol fregus y Coleg ei hun. Gyda sefydlu coleg yng Nghaerdydd yn 1883 ac ym Mangor yn 1884 a phenodi staff i ddysgu'r Gymraeg yn arbennig, daeth yr angen am lyfrgell genedlaethol yn fwy amlwg, ond rhoddai bodolaeth colegau heblaw Aberystwyth gyfle i ddadlau am leoliad y llyfrgell genedlaethol honno. Erbyn yr 1890au roedd y diddordeb yn cynyddu o blith arweinyddion llyfryddol eu crebwyll megis John Gwenogfryn Evans a J H Davies, oedd yn awyddus i hyrwyddo hawliau Aberystwyth yn benodol, a hynny ar

sail y llyfrgell Gymreig oedd yno'n barod; ac yn 1896 sefydlodd Coleg Aberystwyth bwyllgor arbennig i ddatblygu'r llyfrgell Gymreig ymhellach. Ymdrechion y pwyllgor hwn arweiniodd at bwrcasu tir Grogythan ar Benglais uwchben y dre gan yr Arglwydd Rendel yn 1897 at ddefnydd llyfrgell genedlaethol os sefydlid un.

Yn yr 1890au felly, gryn ugain mlynedd wedi cyfarfod yr Wyddgrug, y dechreuodd y mudiad godi stêm, ond nid yn unig oherwydd dylanwad cynyddol y colegau. Dyma'r adeg y dechreuodd y pwysau gwleidyddol, a hynny'n bennaf yn sgil gwaith Tom Ellis, AS Rhyddfrydol Meirionnydd, ac arweinydd mudiad Cymru Fydd. Credai Ellis yn angerddol fod angen datblygu sefydliadau cenedlaethol i Gymru, ac y dylid cael mesur o hunanreolaeth; ond fe'i collwyd yn drasig o ifanc - bu farw'n 40 oed yn 1899. Fe gafodd ddylanwad ar eraill, fodd bynnag, a'r amlycaf o'r rhain o safbwynt hanes y Llyfrgell oedd John Herbert Lewis o Benucha, Caerwys. Etholwyd Herbert Lewis i'r Senedd yn San Steffan yn 1892, yn fargyfreithiwr ifanc, uchelgeisiol. Roedd wedi cwrdd â Tom Ellis chwe blynedd cyn hynny, yn 1886, ac roedd yn rhannu ei weledigaeth am sefydliadau i Gymru. Cymerodd Lewis ran amlwg mewn cynhadledd a gynhaliwyd fis Rhagfyr 1891, ychydig fisoedd cyn ei ethol i'r Senedd, i sefydlu Cyngor Cenedlaethol Gymreig oedd â'i fwriad i drafod pynciau'n ymwneud â Chymru; ond bu'n ymddiddori yng nghwestiwn y grant amgueddfeydd ers rhai blynyddoedd cyn hynny, a dadlau na ddylid amddifadu Cymru o'r hyn yr oedd yr Alban ac Iwerddon yn i fwynhau, sef cyfran o'r grant a roddai'r llywodraeth i gynnal amgueddfeydd cenedlaethol. Ac roedd yr ymresymu hyn eto ynghlwm wrth dwf addysg yng Nghymru. Er sefydlu colegau yn Aberystwyth, Caerdydd a Bangor, roedd teimlad ymhlith llawer – Herbert Lewis yn eu plith – na fyddai'r freuddwyd addysgol Gymreig yn cael ei llwyr sylweddoli nes i'r genedl ennill amgueddfa a llyfrgell genedlaethol iddi hi ei hun. Teimlai i'r byw na ddylai Cymru fod ar ei hôl hi i'r Alban ac Iwerddon o ran derbyn cymhorthdal y Llywodraeth i gynnal amgueddfa a llyfrgell genedlaethol; ond ymglywai hefyd â'r berthynas arbennig rhwng y symudiad i gael i sefydliadau hyn a datblygiad addysg uwch yng Nghymru, ac addysg yn gyffredinol - fe fyddai'n treulio saith mlynedd o'i yrfa seneddol mewn cyfnod diweddarach yn ysgrifennydd seneddol y Bwrdd Addysg.

Mae'n deg cofio hefyd mai hwn oedd cyfnod sefydlu'r cynghorau sir yn 1889 a'r symudiad eithriadol yng Nghymru (ynghynt ac yn well nag yn Lloegr) i sylfaenu Ysgolion Sir, y cyfan yn rhan o fudiad addysgol cenedlaethol a oedd yn sicr i ddylanwadu ar ddyfodiad yr amgueddfa a'r llyfrgell. Dull Herbert Lewis o geisio dwyn y maen i'r wal oedd troi'n ddaeargi seneddol. Gan ddechrau yn 1893, sef blwyddyn ar ôl ei ethol, ni flinai godi yn Westminster fater hawl Cymru i gyfran o'r grant amgueddfeydd a rennid i Loegr, Yr Alban ac Iwerddon. Roedd angen dyfalbarhad daeargi hefyd i ymladd yn erbyn rhagfarnau'r senedd, a fynnai nad oedd diben creu llyfrgell nac amgueddfa genedlaethol i Gymru gan nad oedd Cymru'n genedl; nid oedd yn genedl, maentumiai'r Aelodau Seneddol, am nad oedd ganddi brifddinas. Ond rhoddwyd cynnig ar ôl cynnig yn y Senedd, gan Herbert Lewis a nifer o'i gyd-aelodau Gymreig, gan gynnwys D A Thomas (Dwyrain Morgannwg, Arglwydd Rhondda'n ddiweddarach) a John T Dillwyn Llewelyn (Abertawe), a chael yr ateb - o ran amgueddfa beth bynnag - fod Cymru'n rhannu o wasanaeth amgueddfa De Kensington, a oedd yn benthyca eitemau i ysgolion, ac nad oedd angen mwy. I ryw raddau gwanhawyd yr ymgyrch yn y senedd yn y cyfnod hwn gan ddryswch rhwng sôn am greu llyfrgell a sôn am sicrhau i Gymru gyfran o grant amgueddfeydd y llywodraeth, ac efallai bod hyn wedi dala pethau'n ôl. Roedd yn gymharol hawdd i'r

Ilywodraeth yn San Steffan anwybyddu ymgyrch nad oedd ei nod a'i chyfeiriad yn gwbl gyson, er mai un oedd yr amcan cyffredinol. Erbyn 1903, fodd bynnag, ddeng mlynedd wedi i Herbert Lewis ddechrau ar ei ymgyrch, roedd y llywodraeth (llywodraeth Doriaidd fel mae'n digwydd) yn barod i argymhell sefydlu pwyllgor seneddol i drafod yr angen am sefydliadau Cymreig (a meddwl am lyfrgell ac amgueddfa'n benodol), gan adael y penderfyniad ar leoliad y rheini i'r Cyfrin Gyngor. Ar 10 Chwefror 1905 penodwyd pwyllgor o'r Cyfrin Gyngor i ystyried lleoliad, cynhaliaeth a gweinyddiad y ddau sefydliad, ac ar 10 Mehefin, wedi ystyried achosion Aberystwyth a Chaerdydd, deddfwyd mai yng Nghaerdydd y byddai'r Amgueddfa ac yn Aberystwyth (lle'r oedd llyfrgell Gymreig eisoes) y byddai'r Llyfrgell. Gymaint oedd llawenydd trigolion Aberystwyth fel eu bod wedi cynnal gorymdaith ddathlu drwy'r dref - i ble'r aeth y balchder hwnnw, tybed? Rhoddwyd siarteri sylfaenu'r ddau sefydliad ar yr un diwrnod, sef 19 Mawrth 1907. Yn y cyfamser roedd y Rhyddfrydwyr wedi dod i rym yn 1906 ac roedd Lloyd George wedi'i benodi'n Ganghellor y Trysorlys. Gan ddatgan nad oedd diben bod yn Ganghellor Cymreig oni bai fod modd iddo wneud rhywbeth dros Gymru, fe sicrhodd gyllid o'r Trysorlys i'r sefydliadau newydd, a sefydlu'r egwyddor mai o bwrs y wlad y byddai'r Llyfrgell a'r Amgueddfa Genedlaethol yn cael eu hariannu, egwyddor sy'n dal yn ei grym.

Ond os ymgyrch seneddol oedd hon, mae'n werth sylwi fel y mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn brigo i'r wyneb fel fforwm cenedlaethol droeon yn ystod y blynyddoedd hyn. Fe welsom eisoes yr hyn a ddigwyddodd yn yr Wyddgrug yn 1873. Yn 1896 yng nghyfarfod y Cymmrodorion yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno cyflwynwyd papur ar ran Herbert Lewis ar bwnc cadwraeth cofysgrifau Cymreig, hynny yw Archifyd Gwladol i Gymru. Pwyso roedd am le diogel i gadw archifau llywodraeth leol yn bennaf. Eto yng nghyfarfod y Cymmrodorion yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 1903, wedi i'r llywodraeth gyhoeddi ei bwriad i sefydlu llyfrgell, soniodd Herbert Lewis fod diddordeb ac addewidion y llywodraeth yn rhoi cyfle i Gymru os byddai'r Cymry eu hunain yn gallu penderfynu ar gynllun. Mae'n werth hefyd nodi rôl nid yn unig yr Eisteddfod ond hefyd y Cymmrodorion yn yr holl hyrwyddo hyn ar y syniad.

Os araf oedd yr ymgyrch seneddol i dycio, hwyrach fod y dyrnu parhaus ar y syniad wedi helpu i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru ei hunan. Yn 1979 roedd gwrthod y syniad o gynulliad cenedlaethol yn fodd i gryfhau dygnwch y sawl a ymgyrchai o'i blaid: felly roedd mynych wrthodiad gan y llywodraeth yn tueddu gwneud Cymru'n fwy effro a phenderfynol i sicrhau ei llyfrgell a'i hamgueddfa. Erbyn i'r llywodraeth roi ei haddewid yn 1903 sicrhawyd cefnogaeth yr holl gynghorau lleol yng Nghymru yn ogystal â chefnogaeth unigolion a sefydliadau'r Brifysgol, a bu'r lefel hon o ddiddordeb yn allweddol bwysig wrth i'r egin sefydliadau ymddatblygu - oherwydd ceid cynrychiolaeth helaeth o blith awdurdodau llywodraeth leol yng Nghymru ar lysoedd llywodraethol yr Amgueddfa a'r Llyfrgell, rhywbeth eto oedd yn cadarnhau perchenogaeth gan genedl gyfan.

Ffactor a bwysodd y dafal o blaid Aberystwyth i'r Llyfrgell oedd llwyddiant y gwaith casglu, nid yn unig gan y llyfrgell Gymreig yn y Coleg ond hefyd trwy ddiddordeb y meddyg a'r casglwr Syr John Williams a'i barodrwydd i gyflwyno'i gasgliad yntau a chasgliadau Shirburn o lyfrau cynnar a llyfrgell ddigymar Peniarth o lawysgrifau Cymraeg yr oedd wedi sicrhau hawl arnynt yn 1904. Collodd Aberystwyth gyfle ar un

casgliad pwysig yn 1886 sef llyfrgell E R G Salisbury, a brynwyd gan y Coleg yng Nghaerdydd. Eto i gyd, erbyn blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif gellid gweld fod gan Aberystwyth lawer i'w gynnig i lyfrgell genedlaethol: casgliadau Syr John Williams; llyfrgell Gymreig y Coleg; darn helaeth o dir i godi llyfrgell; a dechreuadau cronfa adeiladu.

O'r ddwy ffrwd gyfochrog o gasglu ar y naill law ac ymgyrchu gwleidyddol ar y llall y ffurfiwyd tir y Llyfrgell, yn debyg i grud gwareiddiad rhwng y Tigris a'r Ewffrates. Ond mae'n deg pwysleisio un peth sy'n gwneud ein Llyfrgell Genedlaethol ni yng Nghymru yn anghyffredin. Nid deddf gwlad a'i creodd. Ac er iddi dderbyn nifer o gasgliadau unigol pwysig, doedd hi ddim yn ei hanfod yn gasgliad preifat, uchelwrol neu frenhinol, fel cynifer o lyfrgelloedd cenedlaethol Ewrop. Ac er amlyced, er mor allweddol, oedd cyfraniad yr arloeswyr, nid creadigaeth unigolion mohoni. Ymateb oedd siarter ei sefydlu i betisiwn y bobl, ac fe gyfrannodd lluoedd o'r rheini o'u harian prin i'w hadeiladu. Adlewyrchu y mae hyn nid yn unig weledigaeth a dygnwch yr arloeswyr, ond gwreiddiau'r Llyfrgell ymhlith y rheini a ddaeth i gyfarfod y beirdd a'r llenorion yn yr Wyddgrug yn 1873, a'u tebyg dros Gymru a thu hwnt: ymateb gwrol a llafar cenedl gyfan i sarhad 1847.

Wrth gwrs dim ond dechrau'r stori yw 1907, blwyddyn y Siarter. Cafwyd blynyddoedd o ymdrech wedi hynny, a brwydrau i godi arian ac i sicrhau parhad yr egin sefydliad. Penodwyd John Ballinger, y Llyfrgellydd cyntaf, yn 1908, ac agorwyd drysau'r Llyfrgell mewn adeilad wedi'i logi gan y Coleg yn nhref Aberystwyth ddechrau 1909. Gosodwyd carreg sylfaen yr adeilad presennol yn 1911, ac fe dyfodd yn raddol dros y blynyddoedd i fod yr hyn yw hi heddiw. Yn yr un flwyddyn, 1911, cafodd y Llyfrgell fraint adneuo statudol, yr hawl i dderbyn copi am ddim o ddeunydd a gyhoeddir ym Mhrydain ac Iwerddon. Prif nod y Llyfrgell yw casglu, diogelu a dehongli, ac mae'n parhau i wneud hynny trwy ddulliau traddodiadol ac yn gynyddol felly trwy ddulliau cyfoes, yn enwedig digido, sy'n golygu bod ei chynulleidfa yn fyd-eang, yn fwy felly nag erioed. Ar hyd y ganrif bu pobl yn dadlau am ei lleoliad, gan ddweud ei bod ymhell o bobman, gan gynnwys Aberystwyth. Mae'r adeilad mawr, urddasol wedi codi ofn ar lu o ymwelwyr yn y gorffennol, ac fe feirniadwyd y pellter arswydus hwnnw gan ddefnyddwyr sawl cenhedlaeth. Dyna pam y bu ymdrech o fewn y blynyddoedd diwethaf i wella mynediad a gwneud y Llyfrgell yn fwy hygyrch a chroesawgar.

A pharhau mae'r cyswllt â'r Eisteddfod. Y Llyfrgell sy'n diogelu archif yr Eisteddfod, gan gynnwys y darnau cystadleuol nas hawliwyd yn ôl gan gystadleuwyr – y tristaf yn eu plith mae'n siwr yw copi Hedd Wyn o awdl 'Yr Arwr' a anfonwyd i Eisteddfod y Gadair Ddu 90 mlynedd yn ôl, amgylchiad a goffawyd o fewn y dyddiau diwethaf wrth gofio brwydr enbyd Passchendaele lle y syrthiodd y bardd. Ac os nad esgorwyd ar waith mor ddylanwadol â **Das Kapital**, fe gynhyrchwyd lluoedd o draethodau eisteddfodol ar sail casgliadau'r Llyfrgell. Wrth ddarlithio ar gydberthynas y Llyfrgell Genedlaethol a'r Eisteddfod Genedlaethol i gyfarfod y Cymmrodorion yn Eisteddfod Wrecsam yn 1933 fe ddywedodd y Llyfrgellydd ar y pryd, William Llewelyn Davies, ei fod yn hoff o atgoffa cynulleidfaoedd nad 'claddfa' ond 'cloddfa' oedd y Llyfrgell; hynny yw, nid man i gladdu relics dogfennol y genedl yn ddiogel o olwg y byd, ond man i'w cadw a'u diogelu er mwyn iddynt fod o ddefnydd i bawb oedd am gloddio ynddyn nhw. Mae natur y cloddio wedi newid dros y blynyddoedd: lle cynt byddai pobl yn dod i'r Llyfrgell i astudio dogfennau er mwyn llunio'u llyfrau, eu herthyglau, a'u traethodau eisteddfodol, gall darllenwyr byd cyfan bellach astudio dogfennau wedi'u digido, a'u

defnyddio a'u dehongli mewn ffyrdd amrywiol a gwahanol. Mae catalogio casgliadau a'u cyflwyno i gynulleidfa eang yn esgor ar astudiaeth lawnach; mae presenoldeb y Llyfrgell ar y we fyd eang – presenoldeb sylweddol hefyd – yn help i genhedloedd byd ddarganfod Cymru.

Nid canmlwyddiant Siarteri'r Llyfrgell a'r Amgueddfa yw unig ganmlwyddiant 1907, wrth reswm: un o'r dathliadau llai amlwg yw canmlwyddiant Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1907, a roddodd i'r corff hwnnw yr hawl i berchenogi eiddo am byth *ar ran y bobl*. Ac fe ddywedwn i taw dyna swyddogaeth sylfaenol y Llyfrgell a'r Amgueddfa fel ei gilydd, dwy ymddiriedolaeth elusennol sy'n gyfrifol am gadw ein casgliadau cenedlaethol ar ran pobl Cymru, nid er mwyn y gorffennol a'r presennol yn unig, ond er mwyn y dyfodol; oherwydd os oes dyfodol i fod i genedl, rhaid iddi gadw ei chof yn llawn. Yn ein byd tymor byr ni, fe dâl i bawb ohonom gofio hynny.

A phe bai'r Tardis eisteddfodol yn tramwyo'r ffordd arall, o 1873 i heddiw, beth, tybed, a ddywedai'r beirdd a'r llenorion, Glanmor, Isaac Foulkes a'r lleill? Beth a ddywedai Mr Gladstone? Eu syniad nhw oedd cael lle i gadw hen lyfrau a llawysgrifau Cymreig, a dim llawer mwy na hynny. Ni fyddent wedi mynd mor bell â Deddf Hawlfraint 1911 a breintiau adneuo statudol ar lefel Brydeinig, heb sôn am yr holl amrywiaeth o ddeunydd a fformatau a geir yn y casgliad heddiw. Ychydig yn 1873 fyddai wedi rhagweld chwyldro technolegol yr ugeinfed ganrif, sy'n peri i Lyfrgell Genedlaethol yr unfed ganrif ar hugain orfod delio, ar ben y pethau traddodiadol, llyfrau, llawysgrifau, mapiau a'u tebyg, â deunydd sgrin a sain ac â holl oblygiadau cyfathrebu digidol – pwy fyddai wedi rhagweld hynny, oni bai fod yng nghynulleidfa'r Wyddgrug gynt ryw Jules Verne neu H G Wells o Gymro? Hwyrach na fyddent yn deall ein dulliau cyfoes o gynnal llyfrgell yn 2007 mewn byd a fyddai'n codi arswyd arnynt, gwyrda 1873. Ond rwy'n meddwl y bydden nhw'n falch fod gan Gymru ei Llyfrgell Genedlaethol, sy'n cadw cof y genedl, a llawer mwy; yn falch fod honno wedi gwasanaethu Cymru ers canrif ac mor llewyrchus a phroffesiynol heddiw ag erioed; ac yn falch eu bod hwythau wedi cyfrannu at y weledigaeth gychwynnol a arweiniodd at ei sefydlu. Fe fyddent mae'n siwr yn falchach fyth ein bod ni wedi dychwelyd i'r Wyddgrug i dalu gwrogaeth i'w cyfraniad i'r hyn a alwyd, ar ddydd y pen blwydd, 19 Mawrth eleni, yn 'un o sefydliadau anwylaf' y genedl hon.